

**Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 15 Mawrth 2022**

Eitem ar yr Agenda	Pwnc	Penderfyniad
1	YMDDIHEURIADAU	Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.
2	DATGANIADAU O GYSYLLTIAD	Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.
3	MATERION BRYD	Ni chodwyd unrhyw fater bryd.
4	COFNODION	<b>PENDERFYNWYD</b> derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Chwefror 2022 a'u cadarnhau fel cofnod cywir.
5	EITEM O'R PWYLLGOR CRAFFU - CAEL GWARED AR NWDYDDAU NA ELLIR EU HAILGYLCHU YNG NGWASANAETHAU ARLWYO YSGOLION	<p><b>PENDERFYNWYD</b> bod y Cabinet, ar ran y Cyngor, yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn gofyn iddynt -</p> <p>(a) weithio gydag awdurdodau lleol ar draws Cymru i geisio lleihau a dileu'r arfer o ddefnyddio plastig untro a nwyddau na ellir eu hailgylchu yn y cyflenwad, ac wrth baratoi a gweini pryddau ysgol;</p> <p>(b) darparu adnoddau ariannol digonol i'r holl awdurdodau lleol i'w galluogi i ddeall yr amcanion uchod a hwyluso mesurau lleihau carbon o fewn eu Gwasanaethau Arlwyo Ysgolion wrth sicrhau bod gwasanaeth pryddau ysgol cynaliadwy yn cael ei ddarparu, a</p> <p>(c) bod y Cabinet, ar ran y Cyngor, yn ysgrifennu at Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn gofyn am eu cefnogaeth i lobio Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r mesurau a nodi yn (a) a (b) uchod.</p>
6	ADEILADAU'R FRENHINES CAM 1 – DYFARNU CONTRACT ADEILADU	<p><b>PENDERFYNWYD</b> bod y Cabinet yn -</p> <p>(a) dirprwyo awdurdod i ddyfarnu Contract ar gyfer adeiladu Cam 1 datblygiad Adeiladau'r Frenhines i'r Contractwr a ffefrir i'r Prif Weithredwr mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Adran 151, Swyddog Monitro ac Aelodau Arweiniol perthnasol ar ddiwedd y cam</p>

**Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 15 Mawrth 2022**

Agenda Item No	Topic	Decision
		<p><i>dylunio manwl ar yr amod bod y cynllun cost o fewn y terfynau fforddiadwyedd ar gyfer y gwaith;</i></p> <p><i>(b) cymeradwyo rhoi'r Penderfyniad Dirprwyedig ar waith ar unwaith oherwydd y brys i ddyfarnu Contract i ganiatáu i waith ddechrau ar y safle cyn gynted â phosibl i fodloni terfynau amser cyllid grant, a</i></p> <p><i>(c) cadarnhau eu bod wedi darllen, deall ac wedi ystyried yr Asesiadau o Effaith ar Les (Atodiad 1 yr adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau.</i></p>
<b>7</b>	DYFARNU CONTRACT – ADNEWYDDU TAI TERAS YN 2 – 16 AQUARIUM STREET Y RHYL.	<p><b>PENDERFYNWYD</b> bod y Cabinet yn -</p> <p><i>(a) cymeradwyo dyfarniad contract i Anthony Dever Construction Limited yn unol â'r Adroddiad Argymell Dyfarnu Contract (Atodiad 1 yr Adroddiad), a</i></p> <p><i>(b) cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac wedi ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 2 yr adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau.</i></p>
<b>8</b>	BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET	<p><b>PENDERFYNWYD</b> nodi rhaglen gwaith i'r dyfodol y Cabinet.</p>